POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Dyddiad Cychwyn: Tachwedd 2012

Dyddiad Adolygu Diwethaf: Ebrill 2026

Dyddiad Adolygu Nesaf: Ebrill 2029

Perchennog y Polisi: Llywodraethu / Adnoddau

Pwynt Cyswllt y Polisi: Aled P Davies, Pennaeth Llywodraethu / Ysgrifennydd y Cwmni , Llywodraethu@adra.co.uk , Est: 7144

CYNNWYS

1. SGÔP/PWRPAS

2. MANYLION Y POLISI / GWEITHDREFN

3. CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

4. DIFFINIADAU

5. DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

6. COFNOD O ADOLYGIADAU I'R POLISI HWN

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

8. RHEOLIADAU CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

1. SGÔP / PWRPAS

1.1. Mae Adra wedi ymrwymo i arfer da a safonau ymddygiad uchel. Mae angen i gydweithwyr ddweud pan fyddant yn teimlo bod rhywbeth o'i le, fel y gallwn wneud rhywbeth amdano. Mae Adra yn cymryd pryderon o ddifri a bydd yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hymchwilio a'u rheoli'n briodol.

1.2. Yn ei hanfod, mae 'chwythu'r chwiban' yn golygu adrodd am gamwedd sy'n cael ei amau – mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut y gellir gwneud hyn a sut y byddai Adra yn ymdrin ag unrhyw achosion o'r fath. Gallai adrodd am rai mathau o gamwedd fod yn 'Datgeliad Gwarchodedig' sy'n gymwys ar gyfer amddiffyniad cyfreithiol penodol o dan Gyfraith Chwythu'r Chwiban – mae'r Polisi hwn hefyd yn mynd i'r afael â hyn.

2. MANYLION Y POLISI / GWEITHDREFN

2.1. Beth yw Chwythu'r Chwiban?

2.1.1 Fel y cyflwynwyd, 'chwythu'r chwiban' yw adrodd am **gamwedd** sy'n cael ei amau. Gellir codi pryderon unrhyw bryd am ddigwyddiad a ddigwyddodd yn y gorffennol, sy'n digwydd nawr neu sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol.

2.1.2 Yn gyffredinol, mae chwythu'r chwiban yn ymwneud â **phryderon difrifol** y mae rhywun yn teimlo na ellir eu codi drwy sianeli mwy arferol (fel drwy drafodaeth gyda'u rheolwr neu Adnoddau Dynol, neu drwy godi pryderon personol / unigol drwy'r Weithdrefn Gwyno).

2.1.3 Dyma rai enghreifftiau o bryderon difrifol y gellid eu hadrodd drwy'r *Polisi Chwythu'r Chwiban:*

- Amheuaeth bod trosedd wedi'i gyflawni (e.e. twyll neu ladrad gan weithiwr)
- Amheuaeth bod deddfwriaeth / rheoliadau'n cael eu torri'n fwriadol (e.e. mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, neu ddiogelu'r amgylchedd)
- Pryderon diogelu gan gynnwys amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl. (Yn gyffredinol, dylid dilyn *Polisi / Gweithdrefn Diogelu Adra* – os ydych chi'n credu, fodd bynnag, bod staff neu gontractwyr Adra yn gysylltiedig, neu eu bod nhw'n esgeuluso eu dyletswyddau i fynd i'r afael â sefyllfa, yna gellir defnyddio'r *Polisi Chwythu'r Chwiban* hwn).
- Amheuaeth bod aflonyddu, gwahaniaethu, neu gamymddwyn rhywiol yn digwydd (gallai hyn hefyd ymwneud â methiant y sefydliad i gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol).
- Amheuaeth bod rheoliadau / polisïau mewnol yn cael eu torri'n fwriadol (e.e. y *Rheoliadau Ariannol* neu *Reolau Gweithdrefn Contractau*)

- Amheuaeth bod ymddygiad anfoesegol yn digwydd yn groes i God Ymddygiad neu ddisgwyliad proffesiynol.

Dim ond ychydig o enghreifftiau, sydd ddim yn rhestr gynhwysfawr, yw'r senarios uchod.

2.1.4 Mae **Atodiad B** yn rhoi canllawiau ar yr hyn a allai fod yn 'Datgeliad Gwarchodedig', a allai fod yn gymwys ar gyfer amddiffyniad cyfreithiol penodol o dan Gyfraith Chwythu'r Chwiban. Hyd yn oed os yw rhywun yn ansicr a yw'r senario yn dod o dan y categori hwnnw, mae'n dal yn bwysig rhoi gwybod am unrhyw gamwedd. Pwysleisir bod Adra yn annog adrodd, ac yn cymryd pryderon o ddifri, a bydd bob amser yn gweithredu yn ysbryd amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon dilys.

2.2 Ar gyfer pwy mae'r polisi?

Gall pawb sy'n gwneud gwaith i Adra neu Medra ddefnyddio'r polisi hwn i roi gwybod am gamymddwyn sy'n cael ei amau. Mae hyn yn cynnwys:

- Pob gweithiwr (gan gynnwys staff asiantaeth)
- Aelodau Bwrdd / Aelodau Cyfetholedig
- Contractwyr ac isgontractwyr (gan gynnwys ymgynghorwyr)

2.3 Sut i Adrodd am Bryder

2.3.1 Yn aml, pobl sy'n gweithio i sefydliad yw'r cyntaf i sylweddoli y gallai rhywbeth difrifol fod o'i le. Fodd bynnag, efallai na fyddent eisiau datgelu eu pryderon oherwydd eu bod yn teimlo y gallant fod yn anffyddlon i'w cydweithwyr neu'r sefydliad. Efallai y byddant hefyd yn poeni y gallai fod dial tuag atynt ac efallai y byddant yn teimlo ei bod hi'n haws anwybyddu'r pryder yn hytrach na'i adrodd, yn enwedig os mai dim ond amheuaeth ydyw y gallai rhywbeth fod yn digwydd. Mae Adra eisiau i bobl deimlo yn hyderus i ddefnyddio’r Polisi a theimlo’n hyderus os ydynt yn wirioneddol bryderus am fater y maent yn ei godi, y byddant yn cael eu trin yn deg ac yn sensitif. Efallai y bydd pryderon yn ddi-sail yn y pen draw, ond byddai'n well gan Adra eu bod yn cael eu codi.

2.3.2 Ni ddisgwylir i rai sy'n chwythu'r chwiban brofi gwirionedd honiad tu hwnt i amheuaeth, ond dylent fod â sail resymol dros eu pryder.

2.3.3 Mae'n bwysig bod y weithdrefn yn y Polisi hwn yn cael ei defnyddio a bod pryderon yn cael eu codi yn fewnol yn Adra yn y lle cyntaf ond mae'r polisi hefyd yn gwneud darpariaeth i bryderon gael eu codi tu allan i'r sefydliad mewn amgylchiadau penodol.[1]

[1]Nid oes unrhyw beth yn y polisi hwn sy’n cymryd ymaith hawliau unigolyn sy’n cael eu darparu yn *Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.* Mae canllawiau y Ddeddf 1998 hon yn nodi y dylai unigolion ystyried gwneud datgeliad yn fewnol i'w cyflogwr yn gyntaf. https://www.acas.org.uk/whistleblowing-at-work/how-to-make-a-whistleblowing-disclosure

2.3.3 Ni chaiff aelodau staff / y Bwrdd eu hatal rhag trafod pryder gyda chydweithiwr. Derbynnir y gallai hyn wneud iddyn nhw deimlo'n fwy cyfforddus, ac o bosibl ei gwneud hi'n haws codi'r mater. Fodd bynnag, pwysleisir mai'r cynharaf y caiff pryder ei adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddog Dynodedig, y hawsaf fydd hi i Adra fynd i'r afael ag unrhyw gamwedd.

2.3.3 **Swyddog Dynodedig Adra yw'r pwynt cyswllt cyntaf i roi gwybod am bryder o dan *y Polisi Chwythu'r Chwiban* hwn. Ysgrifennydd Cwmni Adra yw'r Swyddog Dynodedig – mae eu manylion cyswllt yn Atodiad 1.**

2.3.4 Mae **Atodiad 1** yn manylu ar bwy y gellir cysylltu ag ef os yw'r Swyddog Dynodedig yn gysylltiedig â'r pryder y mae rhywun yn dymuno ei godi, neu os nad ydynt ar gael. Os bydd rhywun yn pryderu am unrhyw agwedd ar y broses fewnol, gallent siarad â'r elusen chwythu'r chwiban annibynnol **Protect** ac mae ganddynt linell gymorth gyfrinachol.

2.3.5 Lle codir pryderon, bydd y Swyddog Dynodedig yn trefnu cyfweliad cychwynnol gyda'r unigolyn sy'n adrodd pryder. Pwrpas y cyfweliad cychwynnol hwn yw deall y pryder. Gofynnir i'r unigolyn sy'n codi'r pryder a yw'n dymuno i'w hunaniaeth gael ei datgelu.[2] Byddant yn cael sicrwydd ynghylch amddiffyniad rhag dial neu erledigaeth bosibl. Gofynnir i'r unigolyn a yw am wneud datganiad ysgrifenedig ffurfiol – beth bynnag, bydd y Swyddog Dynodedig yn ysgrifennu crynodeb o'r cyfweliad cychwynnol hwn, a fydd yn cael ei gytuno gan y ddwy ochr.

2.3.6 Er mwyn eglurder, bob amser ac ym mhob mater, os yw rhywun mewn perygl uniongyrchol ac angen gweithredu brys gan y Gwasanaethau Brys yna dylid eu ffonio ar 999.

2.4 Cyfrinachedd ac Aros yn Ddienw

2.4.1 **Cyfrinachedd:** Bydd pob pryder yn cael ei drin yn gyfrinachol. Bydd Adra yn gwneud ei orau i ddiogelu hunaniaeth rhywun sy'n codi pryder – ni fydd eu henw na'u swydd yn cael eu datgelu heb eu caniatâd, neu oni bai bod Adra wedi'i rwymo i wneud hynny yn ôl y gyfraith. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei hegluro pan fydd y pryder yn cael ei godi. Dylid sylweddoli, ar gyfer rhai pryderon difrifol, y gallai fod yn rhaid i ymchwiliad dilynol ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth.

2.42 **Honiadau Dienw:** Mae'r Polisi hwn yn annog unigolion i fod yn barod i roi eu henwau i honiad. Mae pryderon a adroddir yn ddienw yn llawer llai pwerus, a gallent ei gwneud hi'n anodd i Adra fynd i'r afael â'r mater a godwyd.

2.5 Mesurau Diogelu rhag Dial neu Erledigaeth

2.5.1 Mae Adra yn cydnabod y gall adrodd pryder fod yn anodd iawn. Os yw rhywun yn credu bod yr hyn y maent yn ei ddweud yn wir ni ddylai fod ganddynt unrhyw beth i'w ofni gan mai cyflawni dyletswydd tuag at Adra a'r rhai y mae Adra yn darparu gwasanaeth iddynt y maent.

[2]Cyfeiriwch at yr adran ganlynol ynghylch Cyfrinachedd ac aros yn ddi-enw.

2.5.2 Ni fydd Adra yn goddef unrhyw aflonyddu na dial a bydd yn cymryd camau priodol i amddiffyn gweithwyr pan fyddant yn codi pryder yn ddidwyll. Gall pobl gysylltu â'r Swyddog Dynodedig yn uniongyrchol os ydynt yn teimlo eu bod yn profi dial neu erledigaeth . Byddai Adra yn cymryd camau priodol yn erbyn unrhyw un sy'n dangos unrhyw fath o ddial.

2.5.3 Ni fydd y ffaith bod rhywun wedi rhoi gwybod am bryder drwy'r Polisi hwn yn dylanwadu ar unrhyw un o brosesau diswyddo na disgyblu Adra. Ymhellach, mae cyflogai yn cael ei amddiffyn dan y gyfraith trwy ***Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA)***, ac mewn rhai amgylchiadau gall fynd â chwyn i Dribiwnlys Cyflogaeth os caiff ei drin yn annheg yn y gwaith o ganlyniad i ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wneir yn ddidwyll. Mae mwy o wybodaeth am y gyfraith hon yn **Atodiad 2** .

2.5.4 Os bydd unigolyn yn gwneud honiad yn ddidwyll, na all yr ymchwiliad ei gadarnhau, ni fydd unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn eu herbyn. Fodd bynnag, os daw i'r amlwg bod honiad yn amlwg yn faleisus neu wedi'i wneud er budd personol heb unrhyw bryder gwirioneddol, neu'n ysgafn, yna gellir cymryd camau disgyblu.

2.6 Yr Ymchwiliad

2.6.1 Bydd y Swyddog Dynodedig yn cydlynu'r broses o ymdrin ag unrhyw bryder a godir o dan y Polisi hwn.

2.6.2 Gellir datrys rhai pryderon yn dilyn y cyfweliad cychwynnol hwn drwy gamau y cytunwyd arnynt heb yr angen am unrhyw broses ymchwilio bellach.

2.6.3 Mewn rhai achosion, gall y Swyddog Dynodedig benderfynu bod angen cymryd camau brys ar unwaith cyn cychwyn proses ymchwilio. Lle bo'n berthnasol, cymerir hyn heb oedi cyn cynnal unrhyw broses ymchwilio.

2.6.4 Fel uchod, bydd y Swyddog Dynodedig yn cydlynu'r broses o ymdrin ag unrhyw achos. Byddant yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol, ac yn gofyn am gyngor cyfreithiol a/neu broffesiynol lle maent yn ystyried yn briodol. Y brif egwyddor a fydd yn cael ei gadw mewn cof fydd lles y cyhoedd.

2.6.5 Gall y mater(ion) a godir gael:

- Ei ymchwilio gan y Swyddog Dynodedig (neu swyddog a ddewiswyd ganddynt)
- Ei ymchwilio drwy broses ddisgyblu
- Ei ymchwilio gyda chefnogaeth archwilydd mewnol neu allanol Adra
- Ei gyfeirio at y Rheoleiddiwr
- Ei gyfeirio at yr Heddlu
- Ei gyfeirio at Dîm Diogelu'r Awdurdod Lleol
- Ei ymchwilio drwy ymchwiliad annibynnol / allanol

2.6.6. Mae amgylchiadau lle na fyddai ymchwiliad / camau pellach yn cael eu cymryd – er enghraifft, lle nad oes digon o dystiolaeth i symud ymlaen, neu lle mae'n amlwg bod y mater yn flinderus neu'n ddibwys.

2.6.7 Ar wahân, gallai ddod yn amlwg nad yw'r mater a godwyd yn rhywbeth i'w gyfeirio drwy'r *Polisi Chwythu'r Chwiban* , ac yn hytrach yn rhywbeth i'w drin drwy sianeli mwy arferol (fel y Weithdrefn Gwyno). Byddai'r mater yn cael ei ailgyfeirio i'r sianeli hynny lle bo'n briodol.

2.6.8 Bydd y Swyddog Dynodedig yn rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr am unrhyw bryderon a godir drwy'r Polisi hwn. Os, mewn achos eithriadol, bod pryder yn ymwneud â'r Prif Weithredwr, bydd y Swyddog Dynodedig yn hysbysu Cadeirydd y Bwrdd.

2.7 **<u>Cyfathrebu â'r Unigolyn a Gyflwynodd y Pryder</u>**

2.7.1 Mae Adra yn gwerthfawrogi y byddai rhywun sy'n codi pryder eisiau gwybod bod y mater wedi cael sylw. Felly, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, bydd Adra yn cynnal cysylltiad fel hyn.

O fewn deg diwrnod gwaith o godi'r pryder, bydd y Swyddog Dynodedig yn ysgrifennu at yr unigolyn i:

- Cydnabod bod y pryder wedi'i dderbyn drwy'r *Polisi Chwythu'r Chwiban* yma
- Nodi sut y bydd y mater yn cael ei drin
- Dweud a oes ymholiadau cychwynnol wedi'u gwneud, a
- Nodi a fydd unrhyw ymholiadau pellach yn cael eu gwneud ac os nad oes yna, pam.
- Rhoi enghraifft o ba mor hir y bydd rhaid aros am ymateb terfynol

2.7.3 Bydd y cyswllt rhwng y Swyddog Dynodedig (neu unrhyw swyddog arall sy'n ystyried y mater) a'r unigolyn sy'n cyflwyno'r pryder yn dibynnu ar natur y mater a godwyd. Os oes angen, byddai rhywun yn cysylltu â nhw i gael mwy o wybodaeth (er enghraifft, wrth i ymchwiliad fynd rhagddo a bod angen mwy o fanylion neu eglurder ar beth sydd wedi digwydd).

2.7.4 Pan drefnir unrhyw gyfarfod neu gyfweliad gyda'r unigolyn a gyflwynodd y pryder, gallant ddod â cynrychiolydd neu gydweithiwr efo nhw. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys dod â chynrychiolydd Undeb Llafur gyda nhw. Gellir cynnal cyfarfodydd i ffwrdd o swyddfeydd / safle Adra os byddai hyn yn gwneud yr unigolyn yn fwy cyfforddus.

2.7.5 Bydd Adra yn cymryd camau i'ch helpu cymaint ag y gall er mwyn lleihau unrhyw anawsterau a all ddod i'ch rhan o ganlyniad i godi pryder. Er enghraifft, os oes angen i'r sawl sydd wedi codi'r pryder roi tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblu, bydd Adra yn trefnu eu bod yn cael cyngor am y drefn.

2.7.6 Lle bo'n briodol gwneud hynny, bydd Adra yn hysbysu'r unigolyn o ganlyniad y mater ac unrhyw gamau gweithredu sydd wedi digwydd. Amlygir nad yw hyn bob amser yn bosibl, er enghraifft os yw achos cyfreithiol yn atal hyn rhag digwydd.

2.8 **Sut y gellir mynd â'r mater ymhellach**

2.8.1 Mae Adra yn gobeithio y bydd rhywun a gyflwynodd y pryder yn fodlon ag unrhyw gamau a gymerir. Os nad ydynt, a bod yr unigolyn yn teimlo ei bod yn iawn mynd â'r mater ymhellach y tu allan i Adra, fe'u hanogir yn gryf i ofyn am gyngor (gan gynnwys ystyried amddiffyniad o dan *Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*).

2.8.2 Mae gan elusen chwythu'r chwiban annibynnol, **Protect** linell gymorth gyfrinachol a bydd yn gallu cefnogi gyda'r uchod. Mae ganddyn nhw hefyd restr o Reoleiddwyr / Personau Rhagnodedig y gellid uwchgyfeirio gwahanol bryderon atynt. Mae'r manylion cyswllt wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**.

2.8.2 Awgrymir bod Protect yn bwynt cyswllt cyntaf da er mwyn cael arweiniad. Dyma bwyntiau cyswllt posibl eraill:

- Archwilydd Mewnol Adra, Forvis Mazars (manylion cyswllt yn **Atodiad 1**)
- Y Rheoleiddiwr, Llywodraeth Cymru (manylion cyswllt yn **Atodiad 1**)
- Yr Undebau Llafur
- Yr Heddlu
- Sefydliadau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r mater dan sylw. Er enghraifft, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â mater Iechyd a Diogelwch.
- Tîm Diogelu'r Awdurdod Lleol (lle mae'r mater yn ymwneud â methiant diogelu). Gellir cysylltu â Llinell Gyngor Chwythu'r Chwiban yr NSPCC (National Society for the Prevention of Cruelty to Children) hefyd ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn a lles plant.

Anaml iawn y bydd yn briodol rhoi gwybod i'r cyfryngau, gan y gallai hyn olygu bod y diogelwch cyfreithiol a roddir i'r Chwythwr Chwiban yn cael ei ddileu.

2.9 **Cadw cofnodion gan Adra**

Bydd yr holl achosion yn cael eu hychwanegu at y **gofrestr Twyll a Chwythu'r Chwiban**. Bydd y gofrestr yn cynnwys dyddiad a disgrifiad o unrhyw bryder a godwyd, canlyniad yr ymchwiliad ac unrhyw gam a gymerwyd yn dilyn hynny. Mae'r Gofrestr hon wedi'i diogelu gan gyfrinair er mwyn cyfrinachedd ac Ysgrifennydd y Cwmni sy'n gyfrifol amdano.

2.10 **Adrodd gan Adra**

2.10.1 Bydd Adra yn hysbysu'r Rheoleiddiwr (Llywodraeth Cymru) am holl bryderon chwythu'r chwiban sy'n arwain at Ddigwyddiad Hysbysadwy. Mae gan Adra Ddogfen Ganllaw ar yr hyn sy'n cyfrif fel

Digwyddiad Hysbysadwy (***CSg14***). Bydd Ysgrifennydd y Cwmni yn gwneud yr hysbysiad a bydd yn cynnwys sut mae'r achos yn cael ei drin .

2.10.2 Bydd unrhyw achos chwythu'r chwiban yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ac, yn dibynnu ar natur yr achos, efallai y bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd llawn. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad cryno o unrhyw bryderon a godwyd, canlyniad yr ymchwiliad ac unrhyw gamau a gymerwyd yn dilyn hynny. Er eglurder, ni fyddai manylion y sawl sydd wedi chwythu'r chwiban yn cael ei ddatgelu.

3. CYFRIFOLDEBAU A THREFNIADAU

Rôl	Cyfrifoldeb
Ysgrifennydd y Cwmni (Pennaeth Llywodraethu)	Y swydd hon yw'r prif Swyddog Dynodedig y gall unigolion godi pryderon. Y swydd hon hefyd yw'r Swyddog Monitro sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynnal a gweithredu'r Polisi hwn.
Cyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu	Mae gan Gyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu gyfrifoldeb strategol pwysig dros hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac atebolrwydd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon. Fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1, y swydd hon fyddai'r pwynt cyswllt i godi pryder pe bai rhywun yn pryderu bod Ysgrifennydd y Cwmni yn gysylltiedig â phryder.
Prif Weithredwr	Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb strategol pwysig dros hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac atebolrwydd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon. Fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1, y swydd hon fyddai'r pwynt cyswllt i godi pryder pe bai rhywun yn pryderu bod Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu ill dau yn gysylltiedig â phryder.
Aelodau'r Bwrdd	Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am sicrhau bod y sefydliad yn cynnal trefniadau chwythu'r chwiban cadarn ac effeithiol. Fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1, Cadeirydd y Bwrdd fyddai'r pwynt cyswllt i godi pryder pe bai rhywun yn pryderu bod y 3 swydd uchod yn gysylltiedig â phryder.

4. DIFFINIADAU

- Mae cyfeiriad at **Adra** yn golygu Adra (Tai) Cyfyngedig
- Mae cyfeiriad at **Medra** yn golygu Medra Cyfyngedig

5. DEDDFWRIAETH A DOGFENNAU PERTHNASOL

- ***Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA)*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Diwygio Menter a Rheoleiddio 2013***). Gweler Atodiad 2 am wybodaeth bellach ar y ddeddfwriaeth hon.
- ***CSg14 – Canllawiau Adra ar Ddigwyddiadau Hysbysadwy*** – Bydd Adra yn hysbysu Rheoleiddiwr Llywodraeth Cymru am unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy sy'n deillio o

achos chwythu'r chwiban, yn unol â disgwyliadau rheoleiddiol. Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Adra wrth weinyddu achosion o'r fath.

Fel sy'n cael ei drafod yn y Polisi hwn, mae amryw o faterion a allai fod yn destun pryder, ac efallai y bydd deddfwriaeth a/neu bolisïau penodol sy'n berthnasol i faterion o'r fath.

6. COFNOD O ADOLYGIADAU I'R POLISI HWN

Rhifyn	Dyddiad	Sylwadau	Ysgrifennwyd gan	Cymeradwyo ar gyfer cynnwys
01	07.11.2012	Polisi wedi'i greu	Delyth Williams	Pwyllgor AD y Bwrdd
02	01.08.2014	Newid mewn teitl swydd	Delyth Williams	Delyth Williams
03	03.06.2018	Adolygiad cyffredinol a diweddariad	Delyth Williams	Delyth Williams
04	10.10.2020	Diweddaru enw o CSSIW i Arolygiaeth Gofal Cymru	Delyth Williams	Delyth Williams
05	Ionawr 2021	Diweddariad	Delyth Williams	Delyth Williams
06	14.09.2022	Adolygiad cyffredinol yn unol ag arfer gorau'r sector	Aled Davies	Bwrdd
07	08.09.2023	Diweddariad manylion cyswllt y Prif Weithredwr newydd	Aled Davies	Aled Davies
08	Ebrill 2026	Adolygiad cyffredinol	Aled Davies a Gwenno Littlewood	Bwrdd

I ddatblygu arfer da yn barhaus, bydd Adra yn adolygu'r polisi hwn bob 3 blynedd oni bai bod newid mewn deddfwriaeth.

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1 Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd Adra yn ymrwymo i ymdrin gyda achos o chwythu'r chwiban yn deg ac yn unol â'i ***Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth***.

Ystyriwyd goblygiadau ac aseswyd ei bod hi'n bosibl y gallai'r rhai sydd â nodwedd warchodedig deimlo'n fwy pryderus ynghylch cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn neu eu herlid os ydynt yn codi pryderon drwy'r Polisi Chwythu'r Chwiban. Amlygir bod y *Polisi Chwythu'r Chwiban* hwn yn nodi'n benodol *" na fydd Adra yn goddef unrhyw fath o ddial nac erledigaeth, a bydd yn cymryd camau priodol i amddiffyn y rhai sy'n codi pryder yn ddidwyll. Byddai hyn yn cynnwys cymryd camau priodol yn erbyn unrhyw un sy'n dangos unrhyw fath o ddial."*

Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys manylion cyswllt llinell gymorth annibynnol ar gyfer datgelu camymddwyn.

8. RHEOLIADAU CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

8.1 Wrth weithredu'r polisi hwn, mae Adra wedi ystyried y ***Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)***, a bydd yn sicrhau bod unrhyw ddata a ddefnyddir yn unol â'r rheoliadau ac yn unol â ***Pholisi Diogelu Data Adra***.

ATODIAD 1 - GWYBODAETH CYSYLLTU:

MANYLION CYSYLLTU AR GYFER CODI PRYDER:

Swyddog Dynodedig – Ysgrifennydd y Cwmni (swydd Pennaeth Llywodraethu):
Aled Davies
E-bost: Aled.Davies@adra.co.uk
Fel yr amlinellir yn y Polisi hwn, yr unigolyn hwn yw'r pwynt cyswllt cyntaf i roi gwybod am bryder.

Os oes rhywun yn pryderu bod Ysgrifennydd y Cwmni yn gysylltiedig â'r pryder sy'n cael ei godi, yna dylid adrodd y pryder i Gyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu.

Cyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu
Delyth Williams
E-bost: Delyth.Williams@adra.co.uk

Os oes rhywun yn pryderu bod Ysgrifennydd y Cwmni a Chyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu ill dau yn gysylltiedig â'r pryder sy'n cael ei godi, yna dylid adrodd y pryder i'r Prif Weithredwr.

Prif Weithredwr
Iwan Trefor Jones
E-bost: Iwan.T.Jones@adra.co.uk

Os oes rhywun yn pryderu bod pob un o'r tri swydd uchod yn gysylltiedig â'r pryder sy'n cael ei godi, yna dylid adrodd y pryder i Gadeirydd y Bwrdd.

Cadeirydd y Bwrdd
Sasha Davies
E-bost: sasha.davies@adra.co.uk

Gellid dilyn y dilyniant uchod hefyd os na fydd un o'r swyddogion ar gael (e.e. i ffwrdd ar wyliau) a bod rhywun yn teimlo bod angen codi'r mater ar frys.

PWYNTIAU CYSYLLTU YCHWANEGOL / FFYNONELLAU GWYBODAETH

Cyswllt Archwilio Mewnol
Darren Jones o Forvis Mazars
darren.jones@mazars.co.uk

Rheoleiddiwr Tai Llywodraeth Cymru
Simon Fowler
Simon.Fowler@gov.wales
Cyswllt uniongyrchol: 03000 625256

'Whistleblowing for Employees' gan Gov.Uk:
www.gov.uk/whistleblowing

Protect – elusen chwythu'r chwiban annibynnol y DU
(yn cael ei adnabod o'r blaen fel Public Concern at work)
https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line/
Ffôn: 020 3117 2520

ACAS – corff annibynnol sy'n darparu cyngor am ddim a diduedd ar faterion cyflogaeth:
https://www.acas.org.uk/whistleblowing-at-work
Ffôn: 0300 123 1100

ATODIAD 2 – CANLLAWIAU AR 'DATGELIAD GWARCHODEDIG'

Gellid dosbarthu rhai adroddiadau fel ***'Datgeliad Gwarchodedig'*** sydd â gwarchodaeth cyfreithiol penodol o dan *Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998* . Pan fo'r adrodd yn y categori hwn, mae'r chwythwr chwiban wedi'i amddiffyn yn gyfreithiol rhag:

- Diswyddo annheg – os caiff rhywun sydd â statws cyfreithiol gweithiwr ei ddiswyddo am ddatgelu camweddau, caiff ei drin yn awtomatig fel diswyddiad annheg.
- 'Niwed' (mae hyn yn golygu rhywun yn cael ei drin yn waeth nag o'r blaen, a/neu fod ei sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd iddo wneud y datgeliad).

Mae mwy o wybodaeth am y diogelwch cyfreithiol ar gael ar **wefan ACAS** .

Er mwyn i adrodd gael ei nodi fel **'Datgeliad Gwarchodedig'** , rhaid i'r unigolyn **gredu'n rhesymol** bod camwedd wedi'i wneud, a rhaid i'r datgeliad fod yn cael ei wneud **er budd y cyhoedd** ac **yn ymwneud ag un o'r canlynol:**

(a) trosedd wedi ei gyflawni, neu yn cael ei gyflawni neu'n debygol o gael ei gyflawni,
(b) bod person wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y mae'n ddarostyngedig iddi,
(c) bod camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd,
(d) bod iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn wedi bod, yn cael neu'n debygol o gael ei beryglu,
(e) bod yr amgylchedd wedi, yn, neu'n debygol o gael ei niweidio, neu
(f) bod gwybodaeth sy'n tueddu i ddangos bod unrhyw fater sy'n dod o dan unrhyw un o'r paragraffau blaenorol wedi cael ei guddio, yn cael ei guddio neu'n debygol o gael ei guddio'n fwriadol.

Mae'r gofyniad am **gred resymol** yn golygu na fyddai datgeliadau sy'n fwriadol anwir (neu un maleisus heb gred / pryder gwirioneddol) yn cael eu diogelu.

Mae 'er budd y cyhoedd' yn golygu bod rhaid i'r datgeliad ymwneud â chamwedd sy'n effeithio ar fwy na'r unigolyn yn unig, ac sydd â effaith ehangach ar eraill – fel cydweithwyr, cwsmeriaid, y cyhoedd, neu integriti sefydliad. Mae'n bwysig amlygu:

- Efallai na fydd rhywun yn hollol siŵr a yw rhywbeth 'er budd y cyhoedd' – er enghraifft, efallai y byddan nhw'n meddwl bod rhywbeth yn ddigwyddiad ynysig sy'n effeithio arnyn nhw yn unig. Serch hynny, mae'n bwysig ystyried y gallai fod risg y bydd y troseddwr yn parhau â'r ymddygiad hwn, ac felly gallai codi'r mater fod er budd y cyhoedd drwy helpu i sicrhau nad yw'n digwydd eto.
- Gellir amddiffyn datgeliad hyd yn oed os yw'r chwythwr chwiban wedi'i ysgogi'n rhannol gan bryderon personol, cyn belled â bod gan y mater effaith ehangach .
- Mae'r gofyniad hwn yn syml yn pennu a fyddai datgeliad yn gymwys ar gyfer y diogelwch cyfreithiol penodol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) 1998. Fel yr amlinellwyd yn y Polisi, hyd yn oed os yw rhywun yn ansicr a yw'r senario yn dod o dan y categori hwn, mae'n dal yn bwysig rhoi gwybod am gamwedd. Pwysleisir bod Adra yn annog adrodd, yn cymryd pryderon o ddifrif, a bydd bob amser yn gweithredu yn ysbryd amddiffyn y rhai sy'n codi pryderon dilys.